



## 1. MEINI PRAWF CYMHWYSTER

Byddwch yn cael eich asesu'n awtomatig, heb ei ddyfarnu, ar gyfer y fwrsariaeth **os ydych yn bodloni'r holl ofynion canlynol:**

- A. Rhaid i chi gael eich dosbarthu fel **myfyriwr Cartref** at ddibenion talu ffioedd.
- B. Rhaid i chi fod **yn fyfyriwr newydd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, yn gwneud cais trwy UCAS, ac yn dechrau ar gwrs israddedig llawn amser ym mlwyddyn un neu lefel sylfaen yn dechrau yn 2024. Rhaid i Brifysgol Metropolitan Caerdydd fod yn Brifysgol Dewis Cadarn ar eich cais UCAS erbyn 27<sup>ain</sup> Mehefin 2025**. Efallai y byddwch hefyd yn gymwys os ydych yn dechrau ar eich ail neu drydedd flwyddyn o gwrs masnachfaint Prifysgol Metropolitan Caerdydd (e.e. HND neu gwrs gradd Sylfaen mewn darparwr arall), gan ei fod yn cynrychioli eich tro cyntaf yn bresennol ar gampws Prifysgol Metropolitan Caerdydd.
- C. **Rhaid i'ch cyfeiriad parhaol fod mewn ardal sydd â chyfraddau cyfranogiad isel mewn Addysg Uwch**. \* Gallwch wirio'ch cyfeiriad trwy ddefnyddio Gwiriwr Meini Prawf Prifysgol Metropolitan Caerdydd sy'n gofyn i chi nodi'ch oedran a'ch cod post. Bydd y cyfeiriad a ddefnyddiwyd gennych i gofrestru gyda'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn cael ei ddefnyddio yn eich asesiad cymhwyster. Rhaid i chi ddefnyddio'r un cod post wrth gofrestru ar gyfer Cyllid Myfyrwyr â'r cod post rydych wedi'i ddefnyddio i gofrestru gydag UCAS.
- D. **Rhaid i incwm eich cartref fod yn llai na £30,000:**
  - I. Er mwyn ein galluogi i ddilysu incwm eich cartref, **rhaid i chi fod wedi cofrestru gyda Chyllid Myfyrwyr Cymru neu Loegr fel ymgeisydd 'Prawf Modd' a bod wedi cwblhau asesiad gyda Chyllid Myfyrwyr erbyn 31<sup>ain</sup> Awst 2025**.
  - II. Yn ogystal, mae'n rhaid i chi a'ch noddwr(wyr) (ee eich rhiant(rhieni)) roi '**Caniatâd i Rannu**' manylion incwm/ariannol y cartref fel rhan o'ch cais Cyllid Myfyrwyr bob blwyddyn academiaidd. Os na chaiff y meini prawf uchod eu bodloni, ni fyddwch yn cael eich ystyried ar gyfer y fwrsariaeth.
  - III. Ni ellir gwirio incwm cartref trwy unrhyw ddull arall heblaw'r rhai a restrir uchod (ee nid trwy ddarpariaeth P60/P45, dogfennau treth ac ati).

\*Rydym yn dibynnu ar asiantaethau allanol i ddiweddarau'r data hwn a gall y data hwn newid. Mae codau post yn cael eu categorio ar hyn o bryd yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019, systemau codio POLAR4 Ifanc, ac Oedolion 2011. Darparwyd data gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ym mis Mai 2022.

Bydd eich cymhwyster ar gyfer y dyfarniad Bywyd Astudio yn cael **ei asesu bob blwyddyn academiaidd yn erbyn y telerau ac amodau**

a byddwch yn cael eich e-bostio bob blwyddyn y byddwch yn gymwys ar gyfer y cynllun.

## 2. DYRANIADAU

- A. **Mae nifer y dyfarnwyr yn gyfyngedig ac yn amodol ar argaeledd cyllideb.** Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i'r myfyrwyr hynny sydd ar yr incwm cartref isaf. Os oes gan ddau fyfyrwr neu fwy yr un amgylchiadau ariannol, pennir blaenoriaeth gan ddadansoddiad o ddata tariff ymgeiswyr gan y tîm ysgoloriaeth.
- Cymerir pwyntiau tariff o raddau Lefel A a chymwysterau cyfatebol ac eithrio cymhwyster Bagloriaeth Cymru, Lefel AS, a Phrosiect Estynedig. Yn ogystal, gellir defnyddio dyddiad derbyn y cwrs a/neu ddyddiad y cais hefyd i flaenoriaethu dyraniad.
- B. **Bydd y rhai sy'n gadael gofal a myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio** yn cael y Dyfarniad Bywyd Astudio yn awtomatig yn eu blwyddyn gyntaf o astudio ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd os yw eu statws myfyrwr sy'n gadael gofal/myfyrwr sydd wedi dieithrio wedi'i gadarnhau drwy eu cais Cyllid Myfyrwr neu gan eu mentor staff (Emma Cook) [cyn\\_14 Medi 2024](#). Bydd y rhai y cadarnhawyd eu bod yn gadael gofal neu'n fyfyrwr sydd wedi ymddieithrio yn ddiweddarach yn cael bwrsariaeth Bywyd Astudio pan fydd arian ar gael gyda gweddill yr elfennau o'r pecynnau bwrsariaeth.
- Sylwch, **os ydych yn gymwys ar gyfer y dyfarniad Bywyd Astudio ar y sail eich bod yn gadael gofal neu'n fyfyrwr sydd wedi ymddieithrio, mae eich cymhwysedd parhaus ar gyfer y dyfarniad Bywyd Astudio yn amodol ar y telerau ac amodau hyn.**
- C. **Anfonir cadarnhad dyfarniad at fyfyrwyr a asesir ac a ddyfernir yn ystod Gorffennaf, Awst a Medi.** Bydd cyfathrebu yn dibynnu ar y dyddiad rydym wedi cael mynediad at y wybodaeth am incwm eich cartref. [Os nad ydych wedi derbyn e-bost cadarnhau erbyn 31 Hydref 2024, ystyriwch eich bod yn aflwyddiannus.](#)
- D. Rhaid i chi fod **wedi cofrestru** ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd i fod â hawl i'r bwrsariaeth:
- I. Os byddwch **yn tynnu'n ôl** o'ch cwrs, bydd pob elfen o'r fwrariaeth yn dod i ben ar unwaith heb unrhyw bosibilrwydd o gael eich adfer yn y dyfodol.
  - II. Os cewch eich **atal** o'ch astudiaethau, bydd holl elfennau'r fwrariaeth yn dod i ben ar unwaith. Bydd eich hawl wedi'i hatal nes i chi symud ymlaen i'r flwyddyn rifiadol nesaf o astudio (ar yr amod eich bod yn parhau i fodloni'r meini prawf cymhwyster ar gyfer y dyfarniad). Os na fyddwch yn ail-gofrestru yn y flwyddyn academaidd nesaf, ni fydd gennych hawl i'r fwrariaeth mwyach (e.e. os byddwch yn gohirio eich astudiaethau yn ystod eich ail flwyddyn, mae eich hawl parhaus i'r dyfarniad Bywyd Astudio yn amodol ar i chi gofrestru ym Mlwyddyn 3 yn y flwyddyn ganlynol a bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y dyfarniad). Bydd angen i fyfyrwr sy'n dychwelyd o waharddiad hysbysu Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau am eu bwriad i ddychwelyd cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd.
  - III. Os byddwch **yn gadael eich gradd israddedig**, ni fydd gennych hawl i'r dyfarniad Bywyd Astudio os byddwch yn dewis ail-ymuno a chwblhau eich gradd.
  - IV. Os dewiswch **drosglwyddo cwrs** o fewn y Brifysgol, rhaid i chi fod yn symud ymlaen o un flwyddyn rifiadol o astudio i'r nesaf (ee o 1FT09 i 2FT09) er mwyn cael eich asesu ar gyfer y fwrariaeth yn y flwyddyn academaidd ganlynol. Rhaid i chi hefyd beidio â bod yn trosglwyddo i gwrs a gefnogir gan y GIG a bod yn derbyn Bwrsariaeth y GIG.
- E. Bydd myfyrwyr o **lefel sylfaen i bedwaredd flwyddyn** yn cael eu hystyried ar gyfer y fwrariaeth. Caniateir pedwaredd flwyddyn i'r rhai sy'n dechrau ar flwyddyn sylfaen neu'n astudio cwrs pedair blynedd. Ni fydd myfyrwr ar gwrs sy'n cynnwys **blwyddyn leoliad** yn derbyn y fwrariaeth yn ystod y lleoliad hwnnw.

- F. **Nid oes angen i chi ailymgeisio** bob blwyddyn. Fodd bynnag, sicrhewch eich bod yn rhoi 'Caniatâd i Rannu' manylion incwm/ariannol y cartref fel rhan o'ch cais Cyllid Myfyrwyr bob blwyddyn academiaidd. I. Mae talu'r dyfarniad yn y blynyddoedd hynny ar ôl y flwyddyn gyntaf o bresenoldeb yn **amodol ar symud ymlaen yn llwyddiannus i'r flwyddyn rifiadol nesaf o astudio (ee o QFT09 i 1FT09) a bodloni'r meini prawf flwyddyn ar ôl blwyddyn**. Ni fydd myfyrwyr sy'n ailsefyll yn cael eu hasesu ar gyfer y

bwrsari nes iddynt symud ymlaen i'r flwyddyn ganlynol. Bydd myfyrwyr ag amgylchiadau lliniarol llawn ar gyfer yr holl gredydau ailsefyll yn cael eu hystyried ar gyfer y fwrsariaeth Bywyd Astudio ac, os ydynt yn gymwys, yn cael eu bwrsariaeth Astudio Bywyd unwaith y bydd y Bwrdd Arholi wedi cadarnhau'r wybodaeth. Os ydych chi'n ail-sefyll ac ddim yn mynychu'r Brifysgol yn y flwyddyn academiaidd honno, ni fydd gennych hawl i'r fwrsariaeth Astudio Bywyd.

## **GWOBRAU**

Cyfanswm gwerth y dyfarniad yw **hyd at £950** y flwyddyn.

Unwaith y bydd y bwrsariaethau wedi'u dyrannu a'u cyfathrebu i fyfyrwyr (dim hwyrach na 30 Medi ), byddwch yn cael eich cysylltu gyda manylion eich pecyn dyfarniad. Dim ond ar ôl i chi gofrestru'n llwyddiannus ar eich cwrs gradd amser llawn, ac ar ôl i'ch cwrs ddechrau, y gellir cychwyn talu a darparu'r elfennau dyfarniad unigol.

**Os na fydd unrhyw un o elfennau cydrannol y Bwrsariaeth Bywyd Astudio wedi'u rhoi ar waith erbyn 1 Rhagfyr 2025, bydd y cynnig bwrsariaeth yn cael ei ddiddymu a'i ailddyrranu i fyfyrwr arall.**

**Os dyrennir y dyfarniad i chi yn ddiweddarach yn y flwyddyn ac na chaiff unrhyw un o'r cydrannau ei weithredu o fewn 2 fis, caiff y fwrsariaeth ei diddymu.**

## **3. AIL-DDYRANIADAU**

- Er mwyn darparu ar gyfer blynyddoedd i ddod, os daw pecynnau ar gael byddwn yn ystyried **myfyrwyr Blwyddyn 2 a 3** ar gyfer y wobr
- Bydd myfyrwyr sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ond nad ydynt wedi cael cynnig y fwrsariaeth yn cael eu cynnwys ar **restr aros** .
- **Mae argaeledd yn gyfyngedig** ac yn uniongyrchol gysylltiedig â nifer y myfyrwyr a ddyfarnwyd sy'n tynnu'n ôl / atal o'u cwrs yn ystod y tymor cyntaf. Bydd ailddyraniadau'n cael eu gwneud pan fydd dyfarniad ar gael. **Rhoddir gweddill y lwfans dyfarnu am y flwyddyn i chi.**
- **Os ydych ar y rhestr aros, gwnewch ddarpariaeth ariannol i dalu eich costau byw gan na allwn warantu y bydd dyfarniad yn cael ei ddyrranu i chi.**

## **4. CYFYNGIADAU**

- Unwaith y byddwch wedi cofrestru, bydd unrhyw ohebiaeth bwrsariaeth yn cael ei hanfon at eich cyfeiriad **e-bost myfyriwr** .
- **Ni ellir cario lwfansau bwrsari ymlaen flwyddyn ar ôl blwyddyn**. Os na chaiff elfennau cydrannol y dyfarniad Bywyd Astudio eu hawlio erbyn diwedd y flwyddyn academiaidd (os na hysbysebir dyddiad

cau penodol arall) yna ni ellir hawlio'r elfen honno ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd.

- **Nid yw myfyrwyr sy'n cael bwrsariaeth GIG yn gymwys** ar gyfer y dyfarniad Bywyd Astudio.
- **Nid yw'r fwrsariaeth hon ar gael os ydych yn astudio mewn coleg rhyddfrait.** Cysylltwch â'ch coleg lleol i drafod argaeledd bwrsariaethau ac ysgoloriaethau.
- **Nid yw elfennau gwerth cysylltiedig y dyfarniad yn drosglwyddadwy.** Pecyn dyfarniad ar gampws yw hwn, ac ni fydd cyfnodau o amser a dreulir oddi ar y campws, megis lleoliadau cwrs, yn cymhwyso myfyriwr i drosglwyddo gwerth cysylltiedig elfen o'r dyfarniad Bywyd Astudio. Fodd bynnag, cysylltwch â'r Tîm Bywyd Astudio os oes amgylchiadau eithriadol ynghylch pam na allwch gael mynediad at eich pecyn dyfarniad Bywyd Astudio ar y campws